# CARTER, HUGH (1784 - 1855), gweinidog Wesleaidd Cymreig



**Enw:** Hugh Carter
**Dyddiad geni:** 1784
**Dyddiad marw:** 1855
**Rhiant:** Henry Carter
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Wesleaidd Cymreig
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Albert Hughes Williams

Ganwyd 15 Mehefin 1784. Dechreuodd bregethu yn 1802, derbyniwyd ef i'r weinidogaeth yn 1805, a theithiodd yng Nghymru hyd onid aeth drosodd i'r gwaith Seisnig yn 1816. Aeth yn uwchrif yn 1854, a bu farw yn Northwich 8 Medi 1855.

Ef oedd y cenhadwr Cymraeg cyntaf a benodwyd i Fanceinion; ef hefyd a oedd yn gyfrifol yn bennaf am godi'r capel Wesle Cymraeg cyntaf yn Llundain; ac erys ei lythyrau yn *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1829, yn ddogfennau pwysig am hanes cynnar yr enwad, oblegid yn nh ei dad, Henry Carter, y cyfarfyddai'r gymdeithas Wesleaidd gyntaf yn Ninbych.

## Awdur

**Albert Hughes Williams**, (1907 - 1996)

## Ffynonellau


A. H. Williams, *Welsh Wesleyan Methodism, 1800-1858 its origins, growth and secessions* (1935)

Hugh Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig* (1911–3), i, 341-2

*The Minutes of the Annual Conference Methodist Church*, xiii, 194

Thomas Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Hugh Carter

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733185


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu